



Pŵer Glân Cymru: **Galwad ar Lywodraeth 2026**



Mae RenewableUK Cymru yn galw ar bob plaid wleidyddol i ddarparu'r arweinyddiaeth a'r eglurder polisi sydd eu hangen i sicrhau lle Cymru yng nghanol economi ynni glân y DU.

Mae ynni glân yn un o ddiwydiannau sy'n tyfu gyflymaf yn y DU, gan dorri biliau a gwarchod aelwydydd a busnesau rhag codiadau prisiau sydyn trwy bŵer fforddiadwy, cartref. Mae gwynt a haul eisoes yn cynhyrchu tua hanner trydan y DU, ond dim ond traean yng Nghymru.

Mae gan Gymru adnoddau naturiol o'r radd flaenaf, ond mae'n methu â'u troi'n swyddi, buddsoddiad a thwf economaidd – gan ein gadael ni y tu ôl i weddill y DU. **Dros y degawd diwethaf, sicrhaodd yr Alban fwy na £18 biliwn mewn cefnogaeth buddsoddi newydd ar gyfer ynni glân, tra bod Cymru wedi denu llai nag £1 biliwn.**

Mae buddsoddwyr yn barod. Mae prosiectau wedi'u cynllunio. Mae swyddi'n aros. Yr hyn sydd ei angen nawr yw arweinyddiaeth wleidyddol bendant a phartneriaeth gref rhwng y llywodraeth a'r diwydiant i droi cyfle yn gyflawniad.

Mae'r Alwad ar Lywodraeth hon yn nodi'r hyn sydd ei angen i gyflawni Pŵer Glân Cymru – partneriaeth rhwng y llywodraeth, diwydiant a chymunedau i sicrhau ynni fforddiadwy, swyddi da a buddsoddiad hirdymor.

Mae ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yn cynnig cyfle i Gymru bweru ei hun gydag ynni glân, fforddiadwy, denu buddsoddiad mewnol cynaliadwy, a chefnogi miloedd o swyddi medrus a busnesau Cymreig cynhenid. **Mae Pŵer Glân Cymru yn ymwneud â throï mantais naturiol yn etifeddiaeth economaidd barhaol ar draws ein broydd diwydiannol a'n cymunedau gwledig – gan droi cynhyrchu ynni yn adfywio i Gymru.**



Pam mae angen i ni gynhyrchu mwy o drydan glân?



Lleihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil a fewnforir

Mae'r rhan fwyaf o drydan a gynhyrchir yng Nghymru yn dal i ddod o nwy a fewnforir. Er bod Cymru'n allforio ynni ar y cyfan, ychydig iawn ohono sy'n lân – gan adael aelwydydd, busnesau a'r economi yn agored i brisiau anwadal a siociau byd-eang.



Manteisio i'r eithaf ar gyfle economaidd mawr

Gyda rhai o'r adnoddau gwynt a llanw gorau yn Ewrop, gallai ynni adnewyddadwy ddod yn un o brif ysgogwyr economi Cymru dros y degawd nesaf – **gwerth hyd at £10 biliwn i fusnesau Cymru a chefnogi 8,000 o swyddi diogel, â chyflog da.**



Mae'r galw am drydan yn cynyddu'n gyflym — a bydd yn parhau i gynyddu

Wrth i Gymru newid i gerbydau trydan, pymphiau gwres, a diwydiannau newydd sy'n cael eu gyrru gan AI, mae trydan yn dod yn asgwrn cefn bywyd bob dydd. Heb gynnydd mawr mewn cynhyrchu pŵer glân, mae Cymru mewn perygl o filiau uwch, diogelwch ynni gwannach, a syrthio ymhellach ar ei hôl hi'n economaidd.

Mae'r dewis yn glir: parhau i ddibynnu ar danwydd ffosil a fewnforir neu adeiladu system ynni glân gartref sy'n darparu diogelwch, swyddi a buddsoddiad. Drwy wneud y mwyaf o ynni adnewyddadwy, bydd Cymru yn:

- **Diogelu diogelwch ynni**
- **Darparu trydan cost isel, dibynadwy i gartrefi a busnesau**
- **Hybu cystadleurwydd busnesau Cymru**
- **Cryfhau buddsoddiad ar draws y wlad**
- **Cefnogi miloedd o swyddi diogel â chyflog da**



Credyd Llun: RWE

Beth yw Partneriaeth Pŵer Glân Cymru?

Mae'n gytundeb dwyffordd rhwng y llywodraeth a'r diwydiant.

Mae'r Llywodraeth yn nodi'r hyn y mae ei eisiau o ddatblygiad – swyddi diogel, medrus a chyflog da, cynnwys lleol gan fusnesau Cymru, adeiladu cyfoeth cymunedol a gwelliannau i'r amgylchedd naturiol.

Yn gyfnewid, mae angen amgylchedd buddsoddi sefydlog ar y diwydiant: targedau ynni adnewyddadwy clir sy'n benodol i dechnoleg, polisi cefnogol cryf sy'n blaenoriaethu rôl hanfodol ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr, ac awdurdodau statudol sydd wedi'u hariannu'n well i wneud penderfyniadau cynllunio amserol a chyson.


Mae hyn yn rhoi piblinell ynni adnewyddadwy ddiogel i gwmnïau lleol Cymru, gan roi'r hyder iddynt fuddsoddi mewn pobl. Drwy recriwtio, hyfforddi ac uwchsgilio'n lleol, maent yn creu cyfleoedd i bobl ifanc yr effeithir arnynt waethaf gan ddiffyg swyddi yn y sector preifat mewn ardaloedd gwledig – gan eu helpu i aros, adeiladu gyrfaedd a llwyddo.

Partneriaeth Pŵer Glân Cymru yw'r ffordd orau o droi potensial adnewyddadwy Cymru yn swyddi gwerth uchel, twf busnes, a buddsoddiad hirdymor.



Cenedl sy'n newynog am bŵer

Rhagamcanion o'r galw am drydan yng Nghymru



Ffynhonnell: Adroddiadau Cynhyrchu Ynni yng Nghymru

Rhagwelir y bydd y galw am drydan yng Nghymru yn dyblu — neu hyd yn oed yn treblu — erbyn 2050. Mae prosiectau adnewyddadwy ar raddfa gymunedol yn bwysig ar gyfer perchnogaeth a gwydnwch lleol, ond ni allant ddiwallu anghenion ynni cynyddol Cymru ar eu pen eu hunain.

Mae ynni cymunedol ac ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yn gyflenwol, nid yn ddewisiadau eraill. Mae angen prosiectau ar raddfa fawr — ar y tir ac ar y môr — ar Gymru i wneud y gwaith trwm:



Cadw goleuadau ymlaen



Pweru cerbydau trydan



Gwresogi cartrefi yn fforddiadwy



Cyflenwi trydan glân ar gyfer diwydiannau trwm fel Tata Steel, gan newid o ffwrneisi chwyth i ffwrneisi arc trydan

Mae'r prosiectau hyn yn darparu'r raddfa, y dibynadwyedd a'r fforddiadwyedd y mae ein system ynni yn dibynnu arnynt. Maent hefyd yn datgloi swyddi sector preifat â chyflog da ac yn cryfhau economïau gwledig ac arfordirol.




Mae dau Barth Twf Deallusrwydd Artiffisial (AI) wedi'u cynllunio yng Nghymru, a disgwylir iddynt gynnwys o leiaf naw canolfan ddata newydd. Yn seiliedig ar y galw nodweddiadol am drydan ar gyfer canolfannau data mawr, gallai eu galw cyfunol am drydan gyfateb i neu ragori ar alw dinas maint Caerdydd, gan dynnu sylw at yr angen am bŵer toreithiog a dibynadwy a grid sy'n barod i'w ddarparu.

Swyddi a Thwf Economaidd Cymru


Yn union fel y pwerodd glo Cymru oes stêm a dur Cymru yn adeiladu pontydd a gorwelion ar draws y byd, ynni adnewyddadwy yw ein cyfle economaidd mawr nesaf. Yn wahanol i ddiwydiannau echdynnol y gorffennol, maent yn cynnig math gwahanol o ddyfodol, un sy'n creu gwerth parhaol i Gymru. I'r cymunedau yr effeithiwyd arnynt waethaf gan gwymp glo, mae hynny'n golygu swyddi lleol da a chyfleoedd newydd.

Mae'r map isod yn cynrychioli biliynau o bunnoedd o fuddsoddiad ynni gwynt sydd eisoes ar y gweill – yn barod i'w hadeiladu dros y deng mlynedd nesaf. Nid yn unig y mae'r prosiectau hyn yn lleihau llygredd carbon, maent yn dod â swyddi â chyflog da, buddsoddiad hirdymor a thwf i bob cwr o Gymru, gan adfywio ein diwydiannau a chryfhau ein cymunedau.

2025 OPERATIONAL WIND PROJECTS




FUTURE RENEWABLES PIPELINE



Drwy adeiladu piblinell ynni adnewyddadwy'r dyfodol mae Cymru'n ennill¹:



£10 biliwn
i fusnesau
Cymru



8,000 o swyddi diogel, â chyflog da, gyda chyflog cyfartalog o
£49,000. Mae hynny **£10,000** yn fwy na chyflogau nodweddiadol
Cymru. Digon i dalu'r morgais, magu teulu, ac adeiladu dyfodol.

Drwy gyflwyno targedau penodol i dechnoleg ar gyfer ynni gwynt, solar a llanw a gosod y sylfeini i alluogi buddsoddi mewn system gynllunio gadarn sydd â digon o adnoddau, byddai'n:

- Creu llinell weladwy o brosiectau, gan roi'r sicrwydd sydd ei angen ar fusnesau Cymru i fuddsoddi, arallgyfeirio ac ehangu. Mae hyn, yn ei dro, yn gwneud Cymru'n fwy deniadol i ddarparwyr sgiliau a sefydliadau hyfforddi, sy'n fwy tebygol o fuddsoddi pan fydd llwybr clir o waith yn y dyfodol.
- Galluogi swyddi â chyflog da yng Nghymru i bobl Cymru, gan leihau'r draen dawn a chefnogi twf economaidd rhanbarthol.
- Hybu cystadleurwydd Cymru yn y DU a chryfhau'r achos busnes dros fuddsoddi yng Nghymru.

Partneriaeth Pŵer Glân Cymru yw'r ffordd orau o droi potensial adnewyddadwy Cymru yn swyddi gwerth uchel, biliau sefydlog, twf busnes, a buddsoddiad hirdymor.

¹Unleashing the full value of Welsh renewables; RenewableUK Cymru, 2025



Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

Yn debyg iawn i'n seilwaith rheilffyrdd a dŵr, mae ein grid mewn angen dybryd am fuddsoddiad sylweddol mewn seilwaith. Wedi'i gynllunio ar gyfer economi ganolog, wedi'i phweru gan lo, nid yw'n addas ar gyfer dyfodol modern, adnewyddadwy.

Heb uwchraddio, ni all trydan a gynhyrchir o Ganolbarth Cymru wyntog i arfordiroedd Llandudno a Sir Benfro gyrraedd cartrefi, busnesau na diwydiant yn ddibynadwy – ac mae Cymru mewn perygl o golli'r cyfleoedd economaidd y gallai grid modern, hyblyg eu datgloi.

Mae prosiectau gwynt a solar eisoes yn cael eu gohirio neu eu rhwystro oherwydd diffyg capasiti grid. Mae hyn yn effeithio nid yn unig ar ynni glân, ond ar fywyd bob dydd yng Nghymru – o yrru cerbydau trydan i osod pypiau gwres ac adeiladu cartrefi newydd. Mae hefyd yn cyfyngu ar dwf busnesau o bob maint, o gwmnïau lleol i ddiwydiant ar raddfa fawr a sectorau sy'n cael eu gyrru gan AI.

Rhaid i fforddiadwyedd i ddefnyddwyr fod y prif bryder ar gyfer yr uwchraddio grid hyn.

Gall claddu llinellau pŵer o dan y ddaear gostio hyd at bum gwaith yn fwy na pheilonau uwchben ac mae iddo effaith amgylcheddol llawer mwy².

Gyda biliau ynni cartrefi a busnesau eisoes dan bwysau, mae cadw costau i lawr yn flaenoriaeth uchel i bleidleiswyr Cymru. Mae ymchwil yn dangos, unwaith y bydd pobl yn deall y costau a'r cyfaddawdau gwirioneddol, fod gwithiad cryf yn ôl i dalu mwy am eu biliau ynni – neu drethi uwch – i gladdu llinellau pŵer³.



Byddai'n llawer gwell gen i danddaearu, ond mae gennych chi synnwyr o realaeth yma. Doedd gen i ddim syniad y byddai'r gwahaniaeth cost mor fawr â hynny. Mae'n ddewis anodd gan y byddai'n well gen i danddaearu bob tro. Ond wyddoch chi, mae'n amlwg.

Pleidleisiwr heb benderfynu: profion grŵp ffocws BMG/Copper⁴

² DNV-Undergrounding-132kV-Assessment-Report; Institution of Engineering and Technology: A comparison of electricity transmission technologies: Costs and characteristics report

³ What Wales Really Thinks About Energy – Cavendish

⁴ RenewableUK Cymru / BMG Research: Exploring Welsh Public Attitudes to Renewable Energy; Jan 2026

Mae ein dull yn syml: buddsoddi yn y grid mewn ffyrdd sy'n darparu gwerth am arian ac yn cadw costau ynni i lawr, gan gyfyngu ar aflonyddu amgylcheddol.

Byddai Partneriaeth Pŵer Glân Cymru yn:



Ymrwymo i yrru uwchraddio cost-ffeithiol o seilwaith grid Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Sicrhau bod hyblygrwydd a phragmatiaeth yn cael eu cymhwyso i ddatblygiad grid Cymru.



Cefnogi rhaglen gyfathrebu agored a ffeithiol gan y llywodraeth i esbonio maint yr uwchraddio grid sydd ei angen yng Nghymru, pam eu bod yn angenrheidiol, a sut y byddant yn cael eu cyflawni.

Rhaid i'r
Llywodraeth
ymrwymo i
Bartneriaeth Pŵer
Glân Cymru i
foderneiddio grid
Cymru, cadw
ynni'n
fforddiadwy, a
datgloi swyddi a
buddsoddiad.



Cadw Gwerth i Gymunedau Cymru

Mae gan sector ynni adnewyddadwy Cymru y potensial i drawsnewid cymunedau ar draws y wlad yn economaidd.

Mae prosiectau ynni adnewyddadwy eisoes yn darparu gwerth mawr i gymunedau lleol.

Ar gyfer fferm wynt ar y tir gyffredin, am bob £1 o elw ar ôl treth y mae datblygwr yn ei wneud, mae'r gymuned yn derbyn 37 ceiniog mewn cronfeydd budd cymunedol.



- Mae prosiectau gwynt ar y tir eisoes yn cyfrannu £6.5 miliwn y flwyddyn i gymunedau Cymru.
- Dros y deng mlynedd nesaf, gallai gwynt ar y tir ddarparu hyd at £183 miliwn yn uniongyrchol i gymunedau, gan ariannu cymorth iechyd meddwl, effeithlonrwydd ynni, iechyd a hamdden, a phrosiectau ynni sy'n eiddo i'r gymuned.
- Mae ynni adnewyddadwy hefyd yn cynhyrchu **ardrethi busnes** sylweddol. Os caiff ei glustnodi a'i gadw'n lleol, gallai Powys, er enghraifft, dderbyn £29 miliwn o **bunnoedd y flwyddyn** o'i biblinell ynni adnewyddadwy yn y dyfodol o wynt ar y tir. Budd uniongyrchol pellach i gymunedau sy'n cynnal seilwaith hanfodol

Mae cefnogi gweithgynhyrchwyr, cwmnïau adeiladu a darparwyr gwasanaethau Cymru hefyd yn sicrhau bod **manteision economaidd yn aros yng Nghymru**, gan greu cyfleoedd ar draws rolau medrus, masnach a phroffesiynol eraill.

Byddai Pŵer Glân Cymru yn:



Helpu i ryddhau miliynau mewn taliadau budd cymunedol ar gyfer cymunedau Cymru.



Sicrhau bod yr holl ddatblygwyr yn mabwysiadu arfer gorau a dull unedig o ymgysylltu â'r cyhoedd, gydag adrodd clir i ddangos sut mae prosiectau'n darparu swyddi, sgiliau, buddsoddiad lleol a buddion amgylcheddol.



Creu sicrwydd i fusnesau a darparwyr sgiliau Cymru sefydlu eu hunain ar gyfer y degawdau nesaf.

Byddai Partneriaeth Pŵer Glân Cymru yn gosod dull cyson, arfer gorau o gyflawni gwerth lleol. Drwy sicrhau bod manteision cymunedol yn glir, yn deg ac yn hyblyg – wedi'u llunio gan anghenion lleol heb beryglu prosiectau – byddai'n sicrhau buddsoddiad yng Nghymru yn hytrach na'i adael i lifo i rywle arall yn y DU.

Sut gall Partneriaeth Pŵer Glân Cymru helpu i gefnogi rhaglen ar gyfer y Llywodraeth

Mae Cymru ar groesffordd. Mae'r trawsnewidiad ynni adnewyddadwy eisoes ar y gweill – y cwestiwn yw a ydym yn arwain neu'n cwmpo ymhellach ar ei hôl hi. Heb arweinyddiaeth bendant, bydd buddsoddiad, swyddi a sgiliau'n llifo i rywle arall.

Mae **Pŵer Glân Cymru** yn cynnig y llwybr cliriad ymlaen. Byddai'n:



Diogelu aelwydydd rhag biliau ynni uchel.



Angori buddsoddiad mewn busnesau Cymru a chefnogi twf economaidd.



Creu llwybrau clir i swyddi medrus.



Darparu manteision economaidd hirdymor i gymunedau ar draws Cymru.

Mae RenewableUK Cymru yn annog pob plaid i ymrwymo nawr – i sicrhau swyddi, angori buddsoddiad, a sicrhau bod Cymru yn cymryd ei lle yng nghanol economi ynni glân y DU.

**Cefnogwch Pŵer Glân
Cymru** – sicrhewch
swyddi, angorwch
fuddsoddiad, a
sicrhau bod Cymru
yn cymryd ei lle yng
nghanol economi
ynni glân y DU.



✉ cymru@renewableuk.com

🌐 www.renewableuk-cymru.com

in [renewableuk-cymru](https://www.linkedin.com/company/renewableuk-cymru)

✂ [@RUKCymru](https://twitter.com/RUKCymru)